CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETHAU PENSIYNAU CYMRU

9 RHAGFYR 2019

CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC - 2019/20

ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL:

Cymeradwyo cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2019/20

RHESYMAU:

Un o'r prif weithgareddau o dan adran hyfforddi a chyfarfodydd y cynllun gwaith ar gyfer 2019/20 yw datblygiad cynllun hyfforddi'r Cydbwyllgor / Gweithgor Swyddogion. Bellach, mae hyn wedi'i ddatblygu ac mae angen ei gymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad:	**Swydd:**	**Rhif Ffôn 01267 224160**
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

9 RHAGFYR 2019

CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC - 2019/20

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae datblygiad cynllun hyfforddiant wedi'i gynnwys yng nghynllun gwaith 2019/20 y Bartneriaeth, a gytunwyd arno gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 27 Mawrth 2019.

Darparwyd Holiadur Gofynion Hyfforddiant y Bartneriaeth i holl aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor i'w gwblhau, ac mae'r ymatebion o'r holiaduron a gwblhawyd wedi cael eu hasesu wrth baratoi'r ddogfen hon.

O ganlyniad i amseriad datblygu'r cynllun hyfforddiant hwn, Chwarter 4 - Ionawr i Mawrth 2020, y mae'n ymdrin ag ef yn unig. Bydd cynllun 2020 /2021 yn cael ei ddatblygu er cymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cydbwyllgor fis Mawrth 2020.

Yn bennaf, mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar gwrdd ag anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, gellir ei ymestyn i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os yw'n berthnasol.

Mae'r cynllun hyfforddiant hwn wedi cael ei greu i ychwanegu at yr hyfforddiant Awdurdodau Cyfansoddol cyfredol, a bydd yn berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth. Mae'n bwysig bod gan unigolion, a'u bod yn cadw, lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Mae cynllun hyfforddiant wedi'i baratoi a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
GWELER MANYLION ISOD

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN